## Swyddog Gwella (Gwasanaethau Democrataidd)

**Dyddiad Cau:** 9:00am ddydd Llun 1 Tachwedd 2021
**Dyddiad y Cyfweliad:** I'w gadarnhau 8 neu 10 Tachwedd 2021

**Cyflog:** Graddfa 5 – SCP 33-41 (£36922-44863)
**Cyfnod:** Llawn amser, cyfnod penodol o 18 mis neu secondiad (posibilrwydd o gytundeb 3 mlynedd neu barhaol yn ddibynnol ar gadarnhad o gyllid pellach)
**Yn atebol i:** Pennaeth y Rhaglen Wella
**Lleoliad:** Gweithio Gartref a Gweithio Ystwyth, wedi'i leoli yn Un Parêd y Gamlas, Caerdydd

**Swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol:** Ydi
**Cymraeg yn hanfodol:** Nac ydi. Mae'r gallu i ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl yn ddymunol.

### Ynglŷn â'r Swydd

Rydym yn recriwtio i ddwy swydd yn ein tîm gwelliant o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r tîm yn cyflawni a chydlynu rhaglen newydd o gefnogaeth dan arweiniad y sector i lywodraeth leol.

Mae hon yn rôl allweddol o fewn y tîm gwelliant, sy'n creu cyswllt allweddol rhwng CLILC a'r aelodau etholedig yn y 22 o awdurdodau lleol yn ogystal â'r awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Byddwch yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd a chydweithwyr eraill yn yr awdurdodau lleol i ddatblygu, cydlynu a chomisiynu rhaglen datblygu a chefnogi aelodau ac arweinyddiaeth, gan sicrhau bod aelodau newydd eu hethol yn etholiadau lleol 2022 yn gallu cael gafael ar raglen gynhwysfawr o gyflwyniadau a chymorth a bod yr aelodau'n parhau i ddatblygu a derbyn cefnogaeth trwy gydol eu cyfnodau fel aelodau.

Byddwch yn gallu addasu, yn arloesol ac ymatebol a sensitif i'r heriau a'r amgylchedd wleidyddol mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo.

## Improvement Officer (Democratic Services)

**Closing Date:** 9:00am on Monday 1st November 2021
**Interview Date:** To be confirmed 8th or 10th November 2021

**Salary:** Grade 5 – SCP 33-41 (£36,922-44,863)
**Term:** Full-time, fixed term for 18 months or secondment (scope for 3 year or permanent contract subject to confirmation of extended funding)
**Reports to:** Head of the Improvement Programme
**Based:** Home-working or Agile Working, based at One Canal Parade, Cardiff

**Politically Restricted**: Yes
**Welsh Language essential:** No. The ability to speak and write fluently is desirable for this role.

### About the Role

We are recruiting two exciting roles to our expanding improvement team within the Welsh Local Government Association. The team is delivering and coordinating a new programme of sector-led support to local government.

This is a key role within the improvement team, providing a key interface between the WLGA and elected members across the 22 local authorities as well as fire and rescue and national park authorities. You will work with Heads of Democratic Services and other authority colleagues in developing, coordinating and commissioning a programme of member and leadership development and support, ensuring that newly elected members at the 2022 local elections have access to a comprehensive programme of induction and support and that members continue to receive development and support throughout their terms of office.

You will be adaptive, innovative and responsive and sensitive to the challenges and political environment in which local authorities operate.

Bydd disgwyl i chi fod yn hyblyg a chwarae rôl ehangach yn y Tîm Gwella, gan gefnogi herio gan gymheiriaid ac asesiadau perfformiad panel newydd. Bydd angen i chi fod yn hyderus ac yn wleidyddol ymwybodol, gan allu tywys a gweithio gydag uwch aelodau a swyddogion fel rhan o dimau cymheiriaid a thimau asesiadau panel awdurdodau lleol.

Mae Tîm Gwella CLlLC yn cynnwys Pennaeth y Rhaglen Wella, pedwar Swyddog Gwella ac Uwch Swyddog Cynorthwyo'r Rhaglen. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol, Data Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Mae tîm gwella CLlLC yn cael ei ariannu trwy grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd ymrwymiad i raglen tair blynedd o gyllid grant ar gyfer gwella i CLlLC o 2021 i 2024, ond mae'r grant hwn yn cael ei ddyfarnu'n flynyddol yn ddibynnol ar gyflwyno a chymeradwyo cynllun busnes yn flynyddol. Mae'r swydd felly yn cael ei hysbysebu fel un dros gyfnod penodol, ond fe allai gael ei hymestyn a'i gwneud yn barhaol pe bai Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i roi cyllid grant yn fwy hirdymor neu pe bai cyllid gwella craidd yn cael ei ddarparu i CLlLC trwy ddyraniad o haen uchaf Grant Cynnal Refeniw sy'n cael ei gytuno gan yr awdurdodau sy'n aelodau.

**Rhaglen Wella CLlLC**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi grant blynyddol o £800,000 i CLlLC i gefnogi gwelliant a arweinir gan y sector. Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir y bydd y grant ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynghorau i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau blynyddol a gaiff eu rheoli ar wahân o £200,000 i CLlLC i gefnogi gweithgareddau datgarboneiddio cynghorau a £500,000 i gefnogi arweinyddiaeth ddigidol a thrawsnewid drwy'r Prif Swyddog Digidol a'r Uned Gyflawni.

Mae ymagwedd CLlLC i welliant a arweinir gan y sector wedi ei gefnogi gan arweinwyr a phrif weithredwyr. Caiff cefnogaeth a arweinir gan y sector ei phriodoli ar y cysyniad o gymorth ar y cyd, gyda chydweithwyr gwleidyddol a

You will be expected to be flexible and play a wider role in the Improvement Team, supporting peer challenge and new panel performance assessments. You will need to be confident and politically aware, being able to guide and work with senior members and officers as part of peer teams and panel assessment teams within authorities.

The WLGA Improvement Team includes the Head of Improvement Programme, four Improvement Officers and a Senior Programme Support Officer. The Team works closely with the Chief Digital Officer for local government, Data Cymru and the Local Government Association.

The WLGA improvement team is funded through a Welsh Government grant for 2021-22. The Welsh Government has given indicative commitment to a three year programme of improvement grant funding to the WLGA from 2021-24, however, the grant is awarded on annual basis subject to submission and approval of an annual business plan. This post is therefore advertised on a fixed term basis, however, it may be extended or made permanent should Welsh Government commit to longer-term grant funding or should core improvement funding be provided to the WLGA through an RSG top-slice agreed via member authorities.

**WLGA Improvement Programme**
The Welsh Government has agreed to provide the WLGA with an annual grant of £800,000 to support sector-led improvement. The Welsh Government has a clear expectation that the 2021-22 grant will be used to support councils in the implementation of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. In addition, the Welsh Government provides WLGA with separately managed annual grants of £200,000 to support councils' decarbonisation activities and £500,000 to support digital leadership and transformation through the Chief Digital Officer and Delivery Unit.

The WLGA's approach to sector-led improvement has been endorsed by leaders and chief executives. Sector-led support is predicated on the concept of mutual aid, with political and professional colleagues within the sector providing capacity, support and constructive challenge to address improvement

phroffesiynol o fewn y sector yn darparu capasiti, cefnogaeth a her adeiladol i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â gwelliant neu i gefnogi arloesedd a thrawsnewid. Mae manteision her a chefnogaeth cymheiriaid yn ddeublyg: mae awdurdod yn elwa o dderbyn safbwyntiau arbenigol a phrofiadol cymheiriaid i fynd i'r afael â mater penodol neu ymgymryd â phroses asesu/herio, ac mae'r cymheiriaid sy'n cymryd rhan yn profi ymagweddau, diwylliannau a datrysiadau sefydliadau eraill ac yn dod â mewnwelediad a dysgu sefydliadol, personol neu broffesiynol newydd yn ôl.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir y bydd grant 2021-22 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynghorau i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fe fydd y rhaglen wella yn ystod 2021-22 yn canolbwyntio ar lywodraethu corfforaethol a galluogrwydd, er bod yna drafodaethau parhaus gydag adrannau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogaeth benodol i wasanaethau, er enghraifft gydag addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r grant gwella yn rhoi cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol drwy CLlLC a Data Cymru a chefnogaeth sydd wedi ei chomisiynu drwy bartneriaid neu ddarparwyr allanol o amgylch pedair thema graidd, cynnig cyffredin sydd ar gael i'r holl gynghorau – yn canolbwyntio ar greu capasiti corfforaethol cryf a galluogrwydd gyda chynghorau o dan bedair blaenoriaeth ryngddibynnol:

- Adferiad yn dilyn Pandemig COVID19
- Democratiaeth Leol a Datblygiad Aelodau;
- Llywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad; a
- Galluogrwydd Corfforaethol.

Mae CLlLC hefyd yn darparu cefnogaeth ragweithiol ac adweithiol i'r cynghorau hynny sydd angen cefnogaeth fwy dwys a phwrpasol i'w helpu i wella agweddau o'u busnes.

Fe fydd gweithgareddau gwella CLlLC yn cael eu cyflawni drwy wasanaethau a ddarperir gan Data Cymru a thîm gwella estynedig o 6 aelod o staff, a fydd yn atebol i'r Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu), gan gynnwys dwy rôl Swyddog Polisi a Gwella sy'n bodoli eisoes a

challenges or to support innovation and transformation. The benefits of peer challenge and support are twofold: an authority benefits from receiving expert and experienced peer perspectives in tackling a specific issue or undertaking an assessment/challenge process; and the participating peers are experience other organisations' approaches, cultures and solutions and brings back new organisational, personal or professional insights and learning.

The Welsh Government has a clear expectation that the 2021-22 grant will be used to support councils in the implementation of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. The improvement programme during 2021-22 will focus on corporate governance and capability, though there are ongoing discussions with Welsh Government departments about service specific support, for example in education and social services.

The improvement grant provides directly delivered support through the WLGA and Data Cymru and commissioned support through external deliverers or partners around four core themes, a universal offer available to all councils – focused on building strong corporate capacity and capability with councils under four interdependent priorities:

- COVID19 Pandemic Recovery;
- Local Democracy and Member Development;
- Corporate Governance and Performance; and
- Corporate Capability.

The WLGA also provides proactive and reactive support for those councils who need more intensive and dedicated support to help them improve aspects of their business.

The WLGA's improvement activities will be delivered through services provided by Data Cymru and an expanded improvement team of 6 members of staff, reporting to the Head of Policy (Improvement and Governance), including two existing Policy and Improvement Officer roles and four new posts of: Head of the Improvement Programme; two Improvement Officers; and a Peer and Senior Programme Support Officer.

phedair swydd newydd sef: Pennaeth y Rhaglen Wella; dau Swyddog Gwella ac Swyddog Cymorth Cymheiriaid ac Uwch Swyddog Cymorth.

I gael sgwrs gychwynnol ynglŷn â’r swydd a’r sefydliad, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth y Rhaglen Wella ar 07469 543709.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau, 9:00am ddydd Llun 1 Tachwedd 2021 at: Rheolwr Adnoddau Dynol e-bost recruitment@wlga.gov.uk

For an initial discussion about the role and the organisation, please contact Jo Hendy, Head of the Improvement Programme on 07469 543709.

To apply, please send a covering letter with a completed application form by the closing date of 9:00am on Monday 1st November 2021 to:

HR Manager e-mail recruitment@wlga.gov.uk